**Eitem Agenda: 3(i)**

# AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU

Dyma gofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar ddydd Llun, 31 Ionawr 2005 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Y Rhyl. Cychwynnodd y cyfarfod am 10.30 a.m.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| M Williams (Is-gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Jones MBE | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| E C George | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); S Forrest (Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); C Enness (Dirprwy Brif Swyddog Tân); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); P L Slee (Prif Swyddog Cynorthwyol, Gwasanaethau Corfforaethol); S Morris (Swyddog Prosiectau); K Roberts (Swyddog Cefnogi Tîm Ymgynghorol y Prif Swyddogion); Linda Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

## RHAN 1

### 1) Ymddiheuriadau

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| S C Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W J Chorlton | Cyngor Ynys Môn |
| | |
| K W Finch | Trysorydd i'r Awdurdod |

Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Ar ran yr Awdurdod, mynegodd gydymdeimlad â'r Cynghorydd W J Chorlton yn dilyn marwolaeth ei dad yn ystod y penwythnos.

## 2) Rhybudd o Faterion Brys

Dywedodd y Cadeirydd na chafodd unrhyw faterion eu cyflwyno iddo ef na'r Clerc er mwyn iddynt gael eu hystyried.

Cyflwynwyd a chroesawyd Kevin Roberts, Swyddog Cefnogi Tîm Ymgynghorol y Prif Swyddogion a Linda Roberts, Rheolwr yr Ystafell Reoli i'r cyfarfod gan y Prif Swyddog Tân.

Cafodd copi o erthygl a ddosbarthwyd yn ystod y cyfarfod, gyda'r teitl, "We're winning fire safety war - but too many people still getting injured" a ymddangosodd yn y Daily Post ar 27 Ionawr 2005, ei ddwyn i sylw'r aelodau. Roedd yr erthygl yn cyfeirio at y ffaith bod yr Awdurdod, yn ystod 2004, wedi cofnodi'r nifer isaf o farwolaethau mewn tanau, ers dyddiad ei sefydlu yn 1996. Pwysleisiodd y Prif Swyddog Tân bod y llwyddiant hwn i'w briodoli i ymrwymiad a phenderfyniad dygn personél y Gwasanaeth Tân ar bob lefel. Roedd hefyd yn dangos bod y gwaith Diogelwch Tân Cymunedol a wnaed yn dwyn ffrwyth. Er bod hwn yn llwyddiant cadarnhaol y gellir ymfalchïo ynddo, rhybuddiodd y Prif Swyddog Tân rhag iddo arwain at ddifrawder. Ymunodd yr aelodau gyda'r Prif Swyddog Tân a'r Cadeirydd i estyn eu llongyfarchion i'r holl bersonél am y llwyddiant hwn.

## 3) Cofnodion

Cafodd y cofnodion canlynol eu cyflwyno:

i. Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2004.

***<u>Penderfynwyd:</u> - y dylid cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r trafodion***

## 4) Materion yn codi

**Tudalen 6 - Paragraff 1 - y strwythur mewnol newydd:** Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd E F Evans, cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân bod y strwythur newydd bellach yn weithredol.

## 5) Pwerau Masnachu Awdurdodau Lleol

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) gyda'r bwriad o gael cydsyniad y Panel i ymateb, ar ran yr Awdurdod Tân, i bapur ymgynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch pwerau masnachu awdurdodau lleol. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y papur ymgynghorol yn cynnwys cynigion am i orchymyn gael ei wneud dan Adran 95 o Ddeddf

Llywodraeth Leol 2003, yn cyflwyno'r pŵer i awdurdodau gwerth gorau fasnachu er mwyn gwneud elw. Dan y gorchymyn cyfatebol yn Lloegr, nid oedd pwerau tebyg wedi cael eu cyflwyno i awdurdodau tân ac achub, ond roedd Llywodraeth y Cynulliad yn cadw 'meddwl agored' ar y mater ac yn gwahodd sylwadau. Aeth y Clerc yn ei flaen i egluro y dylai awdurdodau tân ac achub, yn ei farn ef, dderbyn yr hawl i fasnachu. Byddai unrhyw benderfyniad a wneir i ddefnyddio neu beidio defnyddio'r pwerau dan sylw yn gorwedd gyda phob awdurdod unigol. Byddai pob awdurdod a fyddai'n dymuno defnyddio'r pwerau yn gorfod paratoi a chymeradwyo cynllun busnes cyn y gallai ddechrau masnachu ac ni ellid caniatáu iddo roi cymhorthdal i unrhyw gwmni masnachol y byddai'n ei sefydlu. Ym marn y Clerc, nid oedd modd gwrthwynebu'r meini prawf hyn, ond roedd yn gadarn o'r farn y dylai'r Awdurdod wrthwynebu'r cynnig i dynnu'n ôl, dan rai amgylchiadau penodol, bŵer awdurdod i fasnachu. Cytunodd yr Aelodau gyda barn y Clerc, a:

***<u>Phenderfynwyd</u>: - bod y Clerc, ar ran yr Awdurdod, yn cyflwyno ymateb i Lywodraeth y Cynulliad yn unol â pharagraffau 6 a 7 yr adroddiad, gan ddadlau y dylai'r pŵer i fasnachu fod ar gael i'r holl awdurdodau tân ac achub, ac na ddylai'r Cynulliad dynnu'r pŵer i fasnachu oddi wrth unrhyw awdurdod.***

**6) Darparu indemniadau i aelodau a swyddogion awdurdodau perthnasol**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn ceisio cytundeb yr aelodau i ddogfen ymgynghorol Llywodraeth y Cynulliad 'Darparu indemniadau i aelodau a swyddogion awdurdodau perthnasol'. Roedd copi o'r ddogfen ymgynghorol a drafft o'r ymateb a luniwyd ar y cyd gan y Prif Swyddog Tân, y Clerc a'r Trysorydd, wedi'i atodi er mwyn iddynt gael eu hystyried gan yr aelodau. Dywedwyd wrth yr aelodau bod cyhoeddiad y ddogfen yn amserol gan fod yr Awdurdod wedi crybwyll y mater hwn yn ei gyfarfod yn Rhagfyr 2004. Roedd angen ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 1 Mawrth 2005. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau bod gosodiad yr ymateb yn adlewyrchu fformat y cwestiynau oedd yn cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghorol ei hun. Pan fyddai'r cyfnod ymgynghori wedi dirwyn i ben, byddai Gorchymyn yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad. Unwaith y byddai'r Gorchymyn wedi cael ei gymeradwyo a'r rheoliadau wedi'u llunio byddai gofyn, wedyn, i'r Awdurdod lunio ei gynllun indemniadau ei hun. Wrth ymateb i amrywiol gwestiynau, dywedodd y Clerc wrth yr aelodau mai dim ond mewn perthynas â phenderfyniadau a wnaed ganddynt yn ystod trafodion yn ymwneud â materion eu cyngor eu hunain y byddai cynllun indemniad yr awdurdod hwnnw yn eu diogelu, ac na fyddai'r indemniad yn eu diogelu wrth iddynt ymwneud â busnes yr awdurdod tân ac achub. Ni fyddai angen gwneud penderfyniad ynghylch priodoldeb trefnu i'r Awdurdod brynu yswiriant i ddiogelu yn erbyn rhwymedigaethau o'r fath neu sefydlu cronfa i ddiogelu ei hun yn erbyn ceisiadau o'r fath nes y byddai'r pwerau wedi'u caniatáu. Mynegodd y Clerc y farn y dylai'r Awdurdod gefnogi'r ddarpariaeth helaethaf posibl o indemniad i aelodau a swyddogion. Felly:

***Penderfynwyd: -***

- ***i. nodi cyhoeddiad y ddogfen ymgynghorol a'r ymateb drafft a luniwyd gan y Prif Swyddog Tân, y Clerc a'r Trysorydd;***
- ***ii. cyflwyno ymateb, yn y ffurf y mae'n ymddangos fel drafft a atodwyd at yr Adroddiad fel Atodiad B, i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ran yr Awdurdod.***

**7) Lwfansau i Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau**

Cyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Panel benderfynu a ddylai'r Awdurdod wneud trefniadau i dalu lwfansau i aelodau annibynnol y pwyllgor safonau. Eglurodd bod yr adroddiad yn deillio o gais a wnaed gan y Pwyllgor Safonau, yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2004, am i ystyriaeth gael ei rhoi i'r mater. Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai talu lwfansau yn hyrwyddo'r gwaith o ddenu rhagor o ymgeiswyr i wasanaethu ar y Pwyllgor pan fyddai tymhorau swyddi'r aelodau annibynnol presennol yn dod i ben. Yn ogystal, roedd y Clerc o'r farn bod y sefyllfa bresennol, lle mae dau aelod etholedig sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor yn derbyn lwfansau'r awdurdod tân, ond nad oedd y tri aelod annibynnol yn derbyn taliad o unrhyw fath, yn gyfystyr â'u trin mewn modd oedd yn anghyson ac yn annheg. Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau, ar sail gwybodaeth a dderbyniodd oedd yn ychwanegol at yr wybodaeth oedd yn yr adroddiad am argaeledd pwerau i dalu lwfansau i aelodau annibynnol, ei fod ar ddeall nad oedd pwerau digonol ar gael i ganiatáu i awdurdodau tân ac achub dalu lwfansau o'r fath ar hyn o bryd.

Wrth ymateb i nifer o gwestiynau ynghylch baich gwaith y Pwyllgor Safonau, dywedodd y Clerc bod deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal o leiaf un cyfarfod ym mhob blwyddyn galendr, ond fod y Pwyllgor wedi penderfynu cynnal o leiaf ddau gyfarfod bob blwyddyn. Yn ychwanegol at hynny, byddai'n cyfarfod pryd bynnag y byddai angen iddo wneud, a hynny'n ddibynnol ar unrhyw gwynion neu geisiadau am ollyngiadau y byddai'n eu derbyn. Yn ogystal, byddai ei aelodau yn mynychu unrhyw gynadleddau neu seminarau perthnasol, ac o bryd i'w gilydd, gyfarfodydd yr Awdurdod Tân neu bwyllgorau. Er na wnaed unrhyw ddarpariaeth yn y gyllideb ddrafft i dalu lwfansau i aelodau annibynnol, ni allai'r Clerc ragweld sefyllfa lle byddai'r cyfanswm a fyddai'n daladwy mewn unrhyw flwyddyn yn rhagor na £1000. Yna dyfynnodd enghreifftiau o lefel y lwfansau a delir i aelodau annibynnol ei Bwyllgor Safonau gan un o'r awdurdodau cyfansoddol a chan Awdurdod yr Heddlu, a dywedodd y byddai pwyllgor y cyngor yn debygol o ymdrin â baich gwaith oedd yn drymach nag unrhyw beth y byddai Pwyllgor Safonau'r Awdurdod Tân yn debygol o orfod ei wynebu. Dywedodd y Cynghorydd D Jones ei fod yn cytuno gyda'r egwyddor o dalu lwfansau i aelodau annibynnol pwyllgorau safonau, ond roedd o'r farn y dylai'r Cynulliad fod yn gyfrifol am ddarparu'r cyllid. Yn ei ymateb, dywedodd y Clerc y byddai'r Cynulliad yn annhebygol iawn o gytuno gyda chais o'r fath. Awgrymodd y Cynghorydd E C George y byddai'n rheidrwydd ar yr Awdurdod i holi awdurdodau eraill ynghylch lefel y lwfansau yr oeddynt yn eu talu i aelodau annibynnol pwyllgorau safonau cyn gosod ei

raddfeydd ei hun, os byddai rheoliadau'n cael ei gwneud a fyddai'n caniatáu i daliadau gael eu gwneud. Cynigiodd y Cynghorydd E F Evans y dylai'r Awdurdod gyflwyno cynrychiolaethau i Lywodraeth Cynulliad Cymru gan ofyn iddynt lunio rheoliadau a fyddai'n caniatáu i awdurdodau tân ac achub dalu lwfansau i aelodau annibynnol eu pwyllgorau safonau. Eiliodd y Cynghorydd D Jones y cynnig, ond gan gynnwys ynddo welliant, sef fod y cynrychiolaethau yn cynnwys, fod y rheoliadau wedi iddynt gael eu drafftio yn nodi fod lefel y lwfansau a delir i aelodau pwyllgorau safonau pob corff cyhoeddus yn cael eu gael eu gosod ar yr un raddfa pro rata.

***<u>Penderfynwyd</u>: -***

***i. y dylai'r Awdurdod gyflwyno cynrychiolaethau i Lywodraeth Cynulliad Cymru am i bwerau priodol gael eu cyflwyno i ganiatáu iddo dalu lwfansau i aelodau annibynnol ei Bwyllgor Safonau;***
***ii. fod y rheoliadau, wedi iddynt gael eu llunio, yn cynnwys gofyniad i lefel y lwfansau a delir i aelodau annibynnol pwyllgorau safonau gael eu gosod ar yr un raddfa, pro rata, boed hwy ar gyfer pwyllgor safonau awdurdodau lleol, awdurdodau tân ac achub, neu unrhyw gorff cyhoeddus arall;***
***iii. wedi i bwerau o'r fath gael eu cyflwyno, bod yr Awdurdod wedyn yn pennu lefel y lwfansau y mae'n dymuno eu talu i aelodau annibynnol ei Bwyllgor Safonau.***

## 8) Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) gyda'r bwriad o roi gwybod i'r aelodau am y cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, a chanlyniad ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad ar y Fframwaith Drafft a gynhaliwyd yn Ebrill 2004. Roedd copïau o ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad gwreiddiol, yn ogystal â chopi o'r 'fersiwn oedd bron yn derfynol' o'r ddogfen Fframwaith, a gafodd ei gyflwyno a'i drafod ym Mhwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio y Cynulliad ar 8 Rhagfyr 2004, ynghyd â detholiad o Adrannau 21 i 24 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (ynghyd â nodiadau eglurhaol) wedi'u hatodi gyda'r adroddiad. Roedd y wybodaeth ddiweddaraf a dderbyniwyd gan y Cynulliad yn dangos mai'r bwriad oedd cyflwyno fersiwn terfynol y ddogfen Fframwaith i gyfarfod llawn o'r Cynulliad er mwyn iddo gael ei gymeradwyo yn gynnar yn 2005, cyn ei gyhoeddi. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau bod hwn yn fater oedd yn peri pryder gan fod drafft y 'fersiwn oedd bron yn derfynol' yn cynnwys nifer o adrannau oedd yn gwyro cryn dipyn oddi wrth y ddogfen wreiddiol a gyhoeddwyd i ddiben ymgynghori. Roedd tair agwedd o bwys yr oedd angen pryderu yn eu cylch: aelodaeth Pwyllgor Strategol Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru (WF&RSSC); y cynnig i 'gael cymeradwyaeth gan Lywodraeth y Cynulliad i unrhyw gynigion sy'n deillio o Gynllun Risg yr awdurdod i gau neu israddio gorsaf dân'; a'r awgrym y byddai isafswm amseroedd

cyrraedd yn cael eu hail gyflwyno yng Nghymru. Roedd agwedd y Cynulliad i'r materion allweddol hyn mewn gwrthgyferbyniad â'r agwedd a fabwysiadwyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) ar gyfer yr un materion yn y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Lloegr.

Dywedwyd wrth y Panel bod y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân, ynghyd â'u cymheiriaid o'r awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru, wedi cynnal cyfarfod gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar ddau achlysur o fewn cyfnod o chwe diwrnod yn ddiweddar i drafod, ymysg pethau eraill, y materion hyn. Dywedodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân eu bod, o ganlyniad, yn gobeithio y byddai newidiadau yn cael eu gwneud yn awr i'r ddogfen Fframwaith cyn iddi gael ei chyflwyno i gyfarfod llawn y Cynulliad. Dywedwyd wrth yr aelodau bod cyfarfod wedi'i drefnu ar 7 Chwefror 2005, rhwng Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân awdurdodau tân ac achub Cymru gyda Chadeirydd a Chyfarwyddwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i drafod nifer o faterion gan gynnwys y ddogfen Fframwaith. Roedd CLlLC o'r farn bod y newidiadau a gafodd eu cynnwys yn y 'fersiwn oedd bron yn derfynol' yn rhai creiddiol a fyddai o'r herwydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad ymgynghori ynghylch y ddogfen ddiwygiedig. Roedd y Clerc yn cytuno gyda'r farn hon gan fod Adran 21(5) o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub yn gwneud gofyniad fod y Gweinidog i ymgynghori gydag awdurdodau tân ac achub ynghylch "unrhyw newidiadau i'r Fframwaith sydd yn ei dyb ef yn arwyddocaol". Yn ogystal, mynegodd ei bryder ynghylch dilysrwydd cyfansoddiadol y drefn gydsyniad a awgrymwyd. Yn ei farn ef roedd pwerau ymyrryd wedi'u rhoi i'r Gweinidog dan Ddeddf 2004, ac nid oedd yn amlwg y gellid ysgrifennu'r Fframwaith mewn modd a fyddai'n arwain at greu trefn gydsyniad. Cadarnhaodd y Clerc a'r Prif Swyddog Tân wrth y Panel y byddai'r fersiwn o'r Fframwaith, a dderbyniai gymeradwyaeth sesiwn lawn y Cynulliad, wedyn yn cael ei mabwysiadu fel y fersiwn derfynol. Roedd felly'n bwysig bod unrhyw gynrychiolaethau y dymunai'r Awdurdod eu gwneud yn cael eu cyflwyno cyn i'r ddogfen gael ei hystyried yng nghyfarfod llawn y Cynulliad.

Roedd yr aelodau yn gadarn o'r farn y dylai'r Awdurdod barhau i lobïo am i Gadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru wasanaethu ar yr WF&RSSC; roedd hwn yn bwynt y cytunai'r tri awdurdod arno. Roedd hefyd yn hanfodol bod cylch gwaith y Pwyllgor hwn yn wybyddus i'r cyhoedd gan mai hwn oedd y 'pwyllgor strategol' a fyddai'n gyfrifol am gynghori'r Gweinidog ynghylch materion oedd yn berthnasol i'r Gwasanaeth. Roedd y Cadeirydd o'r farn y byddai CLlLC yn rhoi pwysau ar Lywodraeth y Cynulliad am i gyflwyniad y ddogfen Fframwaith i sesiwn lawn y Cynulliad gael ei ohirio nes bydd pawb sy'n ymwneud â hi wedi cael digon o amser i gyflwyno cynrychiolaethau pellach. Dywedodd y byddai'n codi'r mater hwn gyda'r awdurdodau eraill a gyda CLlLC yn y cyfarfod ar 7 Chwefror. Teimlai'r Cynghorydd E C George bod y materion hyn o'r pwys mwyaf a'i bod yn hanfodol i'r Awdurdod lobïo CLlLC a phob un o'r Aelodau Cynulliad lleol ynghylch y pwyntiau a godwyd er mwyn apelio am eu cefnogaeth i ddiben sicrhau bod y fersiwn 'terfynol' yn cael ei ryddhau at ddiben ymgynghori cyn iddo gael ei gyflwyno i sesiwn lawn y Cynulliad. Wedi'r cyfan, y Fframwaith oedd

y glasbrint ar gyfer dyfodol y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru. Roedd felly yn bwysig iawn i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cytuno gyda'i gilydd cyn iddo gael ei fabwysiadu a'i gyhoeddi. Gofynnodd y Panel am i'w hanfodlonrwydd gyda'r modd y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'r broses Fframwaith i gael ei gofnodi.

***Penderfynwyd*** ***: -***

***i. nodi bodolaeth drafft 'bron yn derfynol' y ddogfen Fframwaith; ac***
***ii. i anfon llythyr at Lywodraeth Cynulliad Cymru yn dweud, gan fod fersiwn 'bron yn derfynol' y ddogfen Fframwaith yn ymddangos fel petai'n gwyro'n sylweddol, mewn rhai mannau, oddi wrth y ddogfen Fframwaith drafft gwreiddiol, y dylid ymgynghori ynghylch fersiwn 'terfynol' y ddogfen cyn iddi gael ei chyflwyno, i'w chymeradwyo, gan sesiwn lawn y Cynulliad, yn unol â gofynion Adran 21(5) Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004;***
***iii. y dylai'r aelodau lobïo eu Haelodau Cynulliad lleol ynghylch y materion dan sylw; ac***
***iv. unwaith y byddai'r dyddiad a bennwyd ar gyfer cyflwyno'r ddogfen Fframwaith i sesiwn lawn y Cynulliad yn wybyddus, bod cyfarfod arbennig o'r Panel Gweithredol yn cael ei gynnull i drafod y fersiwn terfynol ac i benderfynu ynghylch unrhyw lobïo ychwanegol y bydd ei angen.***

**9) Adnabod arbedion effeithlonrwydd ar gyfer cyllideb 2005/06**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r Panel, yn unol â phenderfyniad yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 20 Rhagfyr 2004, ystyried y ffordd orau o gyflawni'r gofyniad i sicrhau arbedion effeithlonrwydd o 1% yng nghyllideb 2005/06. Eglurodd bod y Cynulliad wedi datgan yn ei ddogfen bolisi "Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru" ei fod yn disgwyl i'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru ddod oddeutu "*1% yn fwy effeithlon bob blwyddyn am y pum mlynedd nesaf*". Yn unol â'r gofyniad hwn roedd angen i'r Awdurdod adnabod a darparu arbedion o £294,123 yn ystod blwyddyn ariannol 2005/2006. Roedd yr Adroddiad yn rhestru, ar gyfer yr aelodau, nifer o agweddau lle gellid gwneud arbedion er mwyn cyfrannu at y dasg o gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd gofynnol. Atgoffodd y Prif Swyddog Tân aelodau'r Panel bod unrhyw arbedion a wneir yn gorfod bod yn arbedion cylchol o flwyddyn i flwyddyn gan fod pob arbediad posibl unwaith ac am byth wedi cael eu defnyddio at ddiben lliniaru'r cynnydd yng nghyllideb ddrafft 2005/06. Dywedwyd wrth yr aelodau bod Arolygiaeth Gwasanaethau Tân Ei Mawrhydi (HMFSI) wedi mynnu yn y gorffennol bod yr Awdurdod yn cyllidebu ar lefel 'sefydliad llawn', a oedd yn cynnwys nifer cyflawn o ymladdwyr tân rhan amser. Mewn gwirionedd nid oedd yr Awdurdod wedi llwyddo i gyrraedd lefel 'sefydliad llawn' ac o'r herwydd roedd yn rheolaidd yn tan wario yn ei gyllideb ar gyfer staff rhan amser. Nid oedd Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn gosod unrhyw ofyniad o'r fath. O ganlyniad, a heb gyfaddawdu ar ddarparu'r gwasanaeth, gallai'r Awdurdod edrych tuag at y rhan hon o'r

gyllideb, yn bennaf, er mwyn dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd. Dywedodd y Clerc y gallai arbedion effeithlonrwydd ychwanegol ddod i'r amlwg yn sgil yr adolygiadau a'r adroddiadau oedd yn rhan o'r Cynllun Integredig Rheoli Risg, yr oedd ei gynllun gweithredu ail flwyddyn ar hyn o bryd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Yn y dyfodol, efallai y gallai'r Awdurdod hefyd gynhyrchu refeniw trwy godi tâl am ddarparu gwasanaethau arbenigol. Roedd y buddiant posibl o ran incwm i'r Awdurdod o'r ffynhonnell hon yn parhau i fod yn aneglur gan nad oedd y Cynulliad hyd yma wedi ymgynghori ynghylch y pwerau i godi tâl dan Adran 19 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, er bod disgwyl i'r ymgynghoriad hwn gael ei gynnal yn y dyfodol agos. Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd D Jones, dywedodd y Prif Swyddog Tân bod yr arbedion a wnaed yn sgil yr adolygiad strwythur reolaethol eisoes wedi eu cynnwys yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2005/06, a gymeradwywyd yn ddiweddar gan yr Awdurdod. Roedd aelodau'r Panel o'r farn y byddai'n annheg ac yn anymarferol i dorri cyllidebau unigol o 1% ac y dylai'r Awdurdod fonitro'r gwariant cyllidebol cyffredinol yn rheolaidd. O'r herwydd:

***<u>Penderfynwyd:</u>***

- ***i. nodi cynnwys yr adroddiad a'r meysydd a nodwyd ynddo fel y rhai yr oedd modd dod o hyd i'r arbedion effeithlonrwydd o1% yr oedd gofyn i'r Awdurdod eu gwneud ar gyfer y flwyddyn ariannol 2005/06 ynddynt; a***
- ***ii. bod diweddariad o'r adroddiad, am yr arbedion effeithlonrwydd a sicrhawyd hyd yma o fewn y gyllideb ar gyfer diffoddwyr tân rhan amser ar gyfer 2005/06, ynghyd ag unrhyw arbedion posibl eraill neu danwariant potensial a allai gynnig eu hunain, yn cael ei gyflwyno i'r Panel Gweithredol yn rheolaidd.***

**10) Y Diweddaraf ar y Cynllun Risg – Dyfodol Ystafell Reoli'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol), oedd yn cynnwys argymhellion am ddyfodol ystafell reoli Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Yn ei Gynllun Risg cyntaf, roedd yr Awdurdod wedi adnabod, dan y pennawd "Yr Heriau i'r Dyfodol", y bwriad i wneud astudiaeth ddichonolrwydd ar agweddau ymarferol a'r budd a allai ddeillio o rannu cyfleusterau ystafell reoli gyda gwasanaethau argyfwng eraill yng Ngogledd Cymru. Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan y Prif Swyddog Tân bod adroddiad Mott MacDonald wedi argymell mai'r "datrysiad gorau posibl" fyddai i Gymru gael ei gwasanaethu gan un ystafell reoli ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub. Yn sgil datganoli'r cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol, roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datgan " *nad oedd yr achos dros ragor o gyfuno wedi'i wneud*". Fodd bynnag, yr oedd fersiwn 'bron yn derfynol' y Fframwaith wedi hyrwyddo rhagor o gydweithredu rhwng y gwasanaethau argyfwng. Dywedodd y Prif Swyddog Tân wrth yr aelodau bod Rheolwr Ystafell Reoli y Gwasanaeth Tân ac Achub, Linda Roberts, wedi ymweld â sawl safle ar draws y Deyrnas Gyfunol fel rhan o

astudiaeth ddichonolrwydd a wnaed i asesu'r agweddau ymarferol ar ail-leoli neu gyd-leoli. Roedd yr astudiaeth wedi dod i'r casgliad bod posib, o safbwynt logisteg, i ail leoli ystafell reoli'r gwasanaeth tân ac achub. Dywedodd y Rheolwr Ystafell Reoli, Linda Roberts, wrth yr aelodau am y gwahanol fathau o ystafelloedd rheoli a gyd-leolwyd yr ymwelwyd â hwy a chyflwynodd fanylion am y gwahanol fathau o amgylcheddau gwaith a'r ymarferion a weithredir yn yr ystafelloedd cyd-leoledig hyn. Yn ei barn hi, roedd ystafelloedd rheoli oedd yn gweithredu heb unrhyw ragfuriau ffisegol rhwng gweithredwyr y gwahanol wasanaethau fel petaent yn creu amgylchedd gwaith mwy cytûn. Un canlyniad uniongyrchol i hyn oedd bod aelodau staff fel petaent yn cael budd o ryngweithio gyda'u cymrodyr o'r gwasanaethau eraill a bod hyn yn cyfrannu at adeiladu perthnasau gweithio cyffredinol gwell.

Cytunodd yr aelodau na fyddai sefydlu un ystafell reoli i'r gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru yn ddatrysiad hyfyw. Nid oedd cyfuno pellach yn opsiwn y dylid rhoi rhagor o ystyriaeth iddo, ac mai'r ffordd ymlaen fyddai cydweithredu gyda'r gwasanaethau argyfwng eraill. Teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig i'r tri gwasanaeth argyfwng oedd yn weithredol yng Ngogledd Cymru gael eu gweld yn cydweithredu gyda'r fenter hon. Yn y pen draw fe allai hyn gynnig arbedion effeithlonrwydd mewn ystadau a chostau cynnal yn y tri gwasanaeth yn ogystal. Roedd yr aelodau o'r farn, gan fod hwn yn brosiect mor bwysig, ei bod yn hanfodol i aelod etholedig arall wasanaethu ar Fwrdd Rheoli'r Prosiect, yn ychwanegol at y Cadeirydd. Yn ogystal, gwnaeth y Cynghorydd E C George gais oedd yn gofyn i'r Awdurdod ymrwymo ei hun i ddiogelu telerau ac amodau gwaith yr holl bersonél sy'n rhan o'r drefn. Yn sgil y drafodaeth a ddilynodd:

***Penderfynwyd:* -**

***i. i nodi'r gwaith a wnaed hyd yma i ystyried dichonolrwydd rhannu cyfleusterau ystafell reoli ar y cyd gyda'r gwasanaeth ambiwlans a'r heddlu yng Ngogledd Cymru;***

***ii. i nodi ymrwymiad y ddogfen Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Cymru i'r gwasanaethau argyfwng archwilio gweithredu ar y cyd lle byddai gweithredu yn y fath fodd yn cynnig manteision gweithredol ac yn cynrychioli'r gwerth gorau i bawb sy'n rhan ohonynt;***

***iii. bod y Prif Swyddog Tân yn cymryd rhan mewn prosiect reolaeth lawn gyda'r gwasanaethau ambiwlans a'r heddlu, i ddatblygu'r datganiadau presennol o ymrwymiad ynghylch cyd-weithredu yn gynigion cadarn ar gyfer cyd-leoliad ystafelloedd rheoli y tri gwasanaeth argyfwng, gan adrodd yn rheolaidd i'r Panel Gweithredol ynghylch y cynnydd a wnaed;***

***iv. bod Cadeirydd ac Is Gadeirydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn cynrychioli'r Awdurdod ar y lefel wleidyddol yn nhrefniadaeth rheolaeth y prosiect***

## 11) Y Diweddaraf ar y Cynllun Risg - Cynllun Cyd-Ymateb

Dywedodd y Cadeirydd ei fod, oherwydd rhai datblygiadau diweddar ynghylch yr eitem fusnes hon ac ar ôl ymgynghori gyda'r Prif Swyddog Tân, wedi penderfynu ei thynnu oddi ar yr agenda fusnes gyfredol. Byddai'n cael ei chyflwyno, i ddiben ei thrafod, mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 12) Y Diweddaraf ar Brosiectau Cyfalaf

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am raglen gyfalaf yr Adran Eiddo. Dywedwyd wrth yr aelodau bod yr atodiad i'r adroddiad yn dod o dan fusnes Rhan II, ac o'r herwydd byddai'n rhaid i'r wasg a'r cyhoedd adael y cyfarfod cyn y gellid ei drafod neu ofyn cwestiynau yn ei gylch. Dywedodd y Prif Swyddog Tân mai ei fwriad yn y dyfodol fyddai gwneud hon yn eitem wybodaeth safonol ar agenda cyfarfod busnes y Panel er mwyn sicrhau bod yr aelodau'n derbyn gwybodaeth rheolaidd am brosiectau cyfalaf yr Awdurdod. Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Colin Hanks wybodaeth i'r aelodau am bob un o'r prosiectau restrwyd yn yr adroddiad ac atebodd gwestiynau'r aelodau. Wrth ymateb i sawl cwestiwn dywedodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks, bod yr Awdurdod yn disgwyl gadael safle Ffordd Maes Gwyn yn Wrecsam erbyn diwedd Chwefror 2005 ac y byddai'r rhan fwyaf o'r staff yn cael eu hail-leoli, ar sail dros dro, i lawr cyntaf Gorsaf Dân Wrecsam ac i'r swyddfa ardal newydd yn Y Fflint tra byddai'r gwaith o chwilio am adeilad priodol ar gyfer swyddfa ardal yn parhau. Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd E C George cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân nad oedd unrhyw gynlluniau i ail-leoli gorsaf dân Wrecsam ar hyn o bryd.

Mynegodd y Cynghorydd D Jones siomiant ynghylch y modd y gwnaeth rhai aelodau gwestiynu cyngor y Swyddogion mewn perthynas â materion ystadau ac eiddo yn ystod cyfarfod diweddar yr Awdurdod Tân. Yna:

***<u>Penderfynwyd:</u> -i nodi cynnwys yr adroddiad***

## 13) Niferoedd Personél y Gwasanaeth Tân ac Achub sydd ar adleoliad dros dro

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) mewn ymateb i gais a dderbyniwyd yng nghyfarfod diwethaf y Panel, er mwyn rhoi gwybod i'r aelodau am nifer personél gweithredol y gwasanaeth oedd ar hyn o bryd ar adleoliad dros dro. Gwahoddodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Paul Claydon i gyflwyno'r cynnwys i'r aelodau. Cyn ateb cwestiynau'r aelodau am yr amrywiol ffeithiau a ffigyrau y cyfeirir atynt, soniodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Claydon, am fanylion y wybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad, a diffiniodd y derminoleg a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad ar gyfer y gwahanol rengoedd a swyddogaethau. Eglurodd mai polisi'r Awdurdod oedd recriwtio a hyfforddi personél amser llawn mewn da bryd cyn unrhyw ymddeoliadau a ragwelwyd. Trwy ymchwilio data'r blynyddoedd blaenorol, gallai'r Adran Bersonél ragweld, yn weddol gywir, nifer yr

ymddeoliadau tebygol ar sail iechyd. Roedd gwybodaeth am nifer yr ymddeoliadau ar derfyn cwblhau 30 mlynedd o wasanaeth i'w chael yn rhwydd o gofnodion personél. Er y byddai cyfleoedd ar gael i bersonél gweithredol y gorfodwyd iddynt ymddeol ar sail iechyd ar gael dan y newidiadau arfaethedig yng Nghynllun Pensiwn yr Ymladdwyr Tân, nid oedd yr opsiwn hwn lawn mor syml ag yr oedd yn ymddangos.

***<u>Penderfynwyd</u>:- i nodi cynnwys yr adroddiad***

**14) Gweithdrefnau Cwyn, Disgyblu a Galluogrwydd**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi manylion am y polisïau a'r gweithdrefnau newydd ar gyfer ymdrin â chwynion, disgyblu a galluogrwydd yn sgil diddymiad Rheoliadau Gwasanaeth Tân (Disgyblaeth)1985. Roedd Adran 17 Deddf y Gwasanaethau Tân 1947 wedi cael ei diddymu ar 10 Tachwedd 2004 yn sgil cyflwyno Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, ac roedd y ddogfen Fframwaith Cenedlaethol yn datgan yn eglur y dylai gwasanaethau tân ac achub roi gweithdrefnau disgyblu ar waith ar gyfer yr holl staff oedd yn seiliedig ar ddogfen a chanllaw arfer orau'r Gwasanaeth Ymgynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS). Gan ddilyn y canllawiau hynny roedd Swyddogion y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru wedi cydweithio i gynhyrchu gweithdrefnau disgyblu, cwynion a galluogrwydd drafft ar gyfer ystyriaeth yr aelodau. (roedd copïau ynghlwm wrth yr adroddiad). Er bod Rheoliadau Gwasanaeth Tân (Disgyblaeth)1985 wedi cael eu diddymu ar 10 Tachwedd 2004, roedd Cyd Bwyllgor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Awdurdodau Lleol (NJC) wedi cytuno y dylai'r trefniadau presennol barhau yn eu lle nes y byddai'r gweithdrefnau disgyblu a chwynion newydd wedi cael eu cymeradwyo. Byddai unrhyw wrandawiadau neu apeliadau a gofrestrwyd dan yr hen drefn, ond nad oeddent eto wedi'u cwblhau, yn cael eu hystyried dan y gweithdrefnau hynny. Os caent eu mabwysiadu byddai unrhyw achosion disgyblu, apêl neu gwynion a dderbyniwyd ar ôl 1 Chwefror 2005 yn cael eu hymdrin â hwy dan y gweithdrefnau newydd. Wrth ateb cwestiwn, cadarnhaodd Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks nad oedd yr un swyddog ar waharddiad ar hyn o bryd. Golygai'r hen reoliadau bod agwedd ddeublyg i weithdrefnau disgyblu tra oedd y trefniadau newydd yn berthynol yn gyfartal i staff lifrai a staff di-lifrai.

Arweiniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Chris Enness, yr aelodau trwy'r adroddiad a thanlinellodd y newidiadau arwyddocaol ym mhob un o'r tair gweithdrefn. Mynegodd ei werthfawrogiad i'r undebau llafur am eu cydweithrediad ac i ACAS am eu cymorth yn y gwaith o lunio'r polisïau. Roedd Undeb y Brigadau Tân (FBU) ac AMICUS wedi ymateb yn gadarnhaol i'r polisïau, ond er bod nifer o geisiadau wedi'u hanfon atynt nid oedd UNSAIN wedi anfon cydnabyddiaeth nac unrhyw sylwadau. Fel rhan o'r broses fabwysiadu roedd ACAS wedi gwneud cais am i ymrwymiad gael ei arwyddo gan yr holl bartïon mewn perthynas â chytuno ar y polisïau newydd. Ar hyn o bryd roedd y ddogfen honno'n cael ei llunio gan ACAS, a byddai ar gael yn y dyfodol agos. Rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Enness, wybod i'r Panel bod y Clerc, cyn

i'r cyfarfod ddechrau, wedi dwyn ei sylw at y ffaith bod angen i'r geiriau "without following proper procedures" gael eu cynnwys ar ôl y gair "employer" a chyn "may" ym mharagraff 8.4 o'r Polisi Galluogrwydd. Ni fyddai mewnosod y geiriau hyn yn newid ystyr y cymal mewn unrhyw ffordd; yn hytrach byddai'n gwneud y sefyllfa'n fwy eglur i'r holl bartïon perthynol. Wedi i'r polisïau fod mewn grym am ddeuddeng mis roedd gofyniad am iddynt gael eu hadolygu. Mater i'r rheolwyr fyddai hyn i gychwyn, gydag unrhyw newidiadau arwyddocaol yn cael eu hadrodd i'r aelodau er mwyn cael eu cymeradwyaeth.

Dywedodd y Clerc wrth y Panel y byddai'r polisïau newydd petaent yn cael eu mabwysiadu, yn newid swyddogaeth y Panel Gweithredol, fel corff yr Awdurdod ar gyfer gwrando apeliadau, mewn modd arwyddocaol. Roedd matricsau'r polisïau yn rhestru'r apeliadau y byddai'r Awdurdod yn gwrando arnynt : swyddogion y Gwasanaeth fyddai'n ymdrin ag achosion disgyblu neu apeliadau eraill. Fel canlyniad, byddai hyn yn golygu bod angen adolygu cylch gwaith y Panel a byddai hynny'n gofyn am gadarnhad gan yr Awdurdod Tân. Dywedodd y Clerc wrth yr aelodau y byddai, petai'r polisïau yn derbyn cymeradwyaeth y Panel, yn paratoi adroddiad am gylch gwaith diwygiedig y Panel ar gyfer ystyriaeth gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mawrth. Diolchodd y Cynghorydd E C George i'r Swyddogion a'r cyrff cynrychioliadol am eu gwaith yn negydu ac yn llunio'r gweithdrefnau newydd.

***Penderfynwyd*: -**

i. ***i nodi bod effaith gweithio gyda'r undebau llafur, ynghyd â'r hyfforddiant a gafwyd gan ACAS ar y polisïau cwyn, disgyblu a galluogrwydd, yn dangos yn eglur radd ymrwymiad Awdurdod Tân Gogledd Cymru i ymgynghori effeithiol;***
ii. ***i nodi bod yr undebau llafur cydnabyddedig wedi cytuno gyda'r polisïau hyn;***
iii. ***bod y Panel yn cytuno ar ddyddiad cychwyn gweithredu'r Polisïau Cwyn, Disgyblu a Galluogrwydd newydd, fel 1 Chwefror 2005, wedi i 'r geiriau "without following proper procedures" ar ôl "employer" ac o flaen "may" gael eu mewnosod yn y ddogfen ym mharagraff 8.4 o'r 'Polisi Galluogrwydd'; ac***
iv. ***fel canlyniad i'r newidiadau hyn bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ym mis Mawrth ar y newidiadau angenrheidiol i gylch gwaith y Panel Gweithredol.***

## 15) Ymestyn Tâl Salwch

Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi gwybod i'r aelodau am y penderfyniadau a wnaed ganddo mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd mewn perthynas â chaniatáu estyniad i dâl salwch. Eglurodd mai eitem wybodaeth arferol oedd hon a bod y manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

***Penderfynwyd: : -i nodi cynnwys yr adroddiad***

**16) Materion Brys**

Dim.

**17) Dyddiad [au] y cyfarfod(ydd) nesaf**

***<u>Penderfynwyd</u>: - bod y Cadeirydd mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddogion yn pennu dyddiad cyfarfod nesaf y Panel Gweithredol yn ddibynnol ar amseriad cyflwyno drafft terfynol y ddogfen Fframwaith Cenedlaethol i sesiwn lawn y Cynulliad.***

**<u>RHAN II</u>**

Dim materion i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:30pm.

**Cymeradwywyd yr uchod, gan gynnwys unrhyw newidiadau a ddangosir, yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

**Arwyddwyd:** <u>T Roberts</u> **Dyddiedig:** <u>25 Ebrill, 2005</u>